

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

3ydd Mawrth, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 8fed Mawrth, 2021** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

RHAGLEN

1. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

2. YMDDIHEURIADAU

3. MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG

Bydd Dr. O.G. Morris yn ymuno yn y cyfarfod i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf ynglyn a phenodi meddyg newydd.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn ffurflenni.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed CHWFROR, 2021.

Copi'n amgaeëdig.

"A"

I drafod unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

6. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

- (a) Cais C20/1031/32/LL – Cyngor Gwynedd, Ysgol Botwnnog – estyniad a newidiadau i ardal y prif dderbynfa ynghyd a gwelliannau a newidiadau i adeiladau'r ysgol, ail wynebu'r cae pob tywydd ynghyd ag amnewid y ffens a chodi ffens newydd ar ran o ffiniau'r Ysgol.
- (b) Cais C21/0124/32/LL – Caerau, Llangwnnadr – codi sied amaethyddol er mwyn cadw peiriannau amaethyddol ag offer.
- (c) Cais 20/0148/32/DT – Grem, Bryncroes – dymchwel modurdy presennol a chodi estyniad deulawr.
- (d) Cais 21/0161/32/LL – Tyn y Marla, Sarn Mellteyrn – maes carafannau teithiol ar gyfer 10 carafan gydag adeilad cysylltiol.

7. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

8. **TENDRAU BARBIO**

Mae dau dendr i law ac fe'i hagor nos Lun nesaf.

9. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.

Llanw Llyn – hysbyseb am ddau fis (barbio tiroedd y Cyngor)	£18 (siec 2007200)
Y Clarc	£372.55
HMRC	£ 93.20
Y Clarc costau stampiau	£ 40.76

10. **CYFLE I REDEG CAFFI SIOP Y PLAS**

Mae pecyn gwybodaeth i law oddi wrth Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, (Ardal Dwyfor). Os yr ydych yn dymuno cael copi gadewch i mi wybod.

11. **LLENWI BINIAU HALEN**

Cais am gael llenwi bin halen ar y ffordd o Bronllwyd Fawr i Ty Canol, Bryncroes.

Yn gywir,


Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli
Dylan Parry Jones
Carys E. Williams

Carys H. Evans
Ifor Owen
Glenys Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Siôn Williams

Gwenan Griffith
Michael Strain